**PWYLLGOR RHANBARTH CANOLBARTH CYMRU**

**CYNGOR SIR POWYS**

**CYFLWYNWYR**

1. Cynghorydd Sir John Thompson, Cadeirydd Partneriaeth Dwyrain Cymru, Partneriaeth Adfywhau Powys a Phwyllgor Datblygu Economaidd a Chynllunio Powys.

Graham Davey, Cyfarwyddwr Cynllunio, Datblygu Economaidd ac Adfywhau,

Cyngor Sir Powys.

**PWRPAS Y PAPUR**

2. Roedd gwahoddiad Cadeirydd y Pwyllgor i wneud cyflwyniad i Bwyllgor Rhanbarth Canolbarth Cymru y Cynulliad ym mis Hydref, yn ymwneud â dau fater sy'n gysylltiedig ond eto ar wahân, sef:

- effaith cyfuno Bwrdd Datblygu Cymru Wledig (BDCW) ac Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) yn 1998 ar adfywhad economaidd a chymunedol yng Nghanolbarth Cymru; a
- barn y Cyngor Sir ar faterion allweddol sy'n ymwneud ag adfywhau economaidd a chymunedol a sydd o bwys i'r awdurdod.

3. Mae'r papur byr hwn yn trin y ddau fater pwysig hyn ar wahân. Bydd y cyflwynwyr yn barod iawn i ymhelaethu ar gynnwys y papur yn ystod y drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**UNO B.D.C.W. AC A.D.C.**

4. Bydd y Cynulliad yn ymwybodol iawn o'r pryderon a fynegwyd yng Nghanolbarth Cymru yn dilyn colli ei asiantaeth ddatblygu ei hunan sef Bwrdd Datblygu Cymru Wledig. Ymhlith y pryderon oedd:

- colli cynrychiolaeth leol ar fwrdd Awdurdod Datblygu Cymru;
- colli annibyniaeth a'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion lleol;
- colli rheolaeth uniongyrchol dros gyllidebau o fewn yr ardal;
- colli medru cysylltu â llunwyr polisïau allweddol;

- colli ffocws clir ar broblemau ac anghenion datblygu gwledig; a’r
- bygythiad o ddargyfeirio cyllidebau a dirywiad gweithgareddau asiantaethol yng Nghanolbarth Cymru.

5. Mae’n wir dweud bod ein hofnau gwaethaf wedi cael eu gwireddu mewn o leiaf un o’r uchod, tra ei fod yn deg dweud ei bod hi’n rhy gynnar i ddod i farn ar y gweddill.

6. O dan arweinyddiaeth leol Rheolwr-gyfarwyddwr Canolbarth Cymru Awdurdod Datblygu Cymru, rhaid pwysleisio bod y Cyngor yn falch gweld bod y swyddfeydd rhanbarthol wedi medru cadw llawer o’r staff a’r arbenigrwydd. Rydym yn parhau i weld cydweithio da rhwng swyddogion proffesiynol Awdurdod Datblygu Cymru-Canolbarth Cymru a ninnau, ac yn parhau i weithio ar sawl menter ar y cyd.

7. Ond yr argraff a gafodd y Cyngor yw bod hyblygrwydd gweithio’n lleol wedi gostwng ers yr uno, bod y broses o ddatblygu polisïau a chychwyn ar fentrau newydd yn llawer hirach, a bod blaenoriaethau datblygu ardaloedd gwledig yn gorfod cystadlu am sylw yn erbyn anghenion datblygu ardaloedd trefol. Yn hanesyddol, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi canolbwyntio ar yr ardaloedd trefol ac mae hyn yn amlwg iawn i’r mwyafrif o lunwyr polisi yr Awdurdod Datblygu Cymru yn Ne Cymru.

8. Fe wnaeth B.D.C.W. dargedu adnoddau sylweddol at ddatblygu busnesau bychain cynhenid. Mae’r Cyngor yn falch nodi mwy o ymroddiad gan Awdurdod Datblygu Cymru yn y sector hwn ac mae’n ryddhad mawr gweld bod yr Awdurdod yn parhau i gyd-ariannu’r bartneriaeth Cyswllt Busnes yng Nghanolbarth Cymru sydd wedi bod ar fynd ers cryn amser.

9. Mae wedi cymryd peth amser i’r Awdurdod Datblygu Cymru newydd ystyried sut i ddefnyddio’r pwerau datblygu cymdeithasol a etifeddwyd gan y B.D.C.W. Mae’r Cyngor yn awyddus bod cyllideb Awdurdod Datblygu Cymru am y flwyddyn nesaf yn cynnwys elfen ar gyfer gwaith datblygu cymunedol. Mae Menter Trefi Marchnad a nawdd cysylltiedig gan y B.D.C.W. wedi helpu i hybu mwy o weithgareddau i adfywhau cymunedau, ond mae hefyd wedi codi disgwyliadau yn sylweddol. Er mwyn adfywhau cymunedau, rhaid cael nawdd cyllid refeniw a ffordd o gael nawdd cyfalaf, a hynny ar sail tymor hir. Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru rôl allweddol i’w chwarae yn y gwaith hanfodol hyn, law yn llaw â phartneriaid eraill megis awdurdodau lleol a’r cymunedau eu hunain. Mae’n holl bwysig bod nawdd Awdurdod Datblygu Cymru yn parhau gyda mwy o hyblygrwydd, fel a rhagwelwyd gan dîm Canolbarth Cymru o Awdurdod Datblygu Cymru.

10. Mae’r Cyngor wedi mynegi pryder am danariannu Awdurdod Datblygu Cymru, yn arbennig o gofio eu bod yn parhau i ddibynnu ar incwm o werthu asedau sy’n diflannu’n gyflym, a sydd yn ei dro, yn gostwng incwm i’r awdurdod sy’n dod o renti. Credwn y dylai

Awdurdod Datblygu Cymru fuddsoddi mwy nag y maent ar hyn o bryd, trwy brynu safleoedd busnes, seilwaith busnes a hybu gweithleoedd, gan gynnwys safleoedd busnesau bychain. Ym Mhowys, y pryder yw y gall holl sylw'r Cynulliad Cenedlaethol ar ardal Amcan 1 arwain at ddargyfeirio nawdd cyfatebol, er anfantais difrifol i economi Dwyrain Cymru.

11. Ategwyd y pryderon a oedd yn gysylltiedig ag uno B.D.C.W. ac A.D.C. gyda cholli cynrychiolaeth leol. Mae Sir Powys, sef chwarter Cymru, wedi symud o gael cynrychiolaeth dda ar Fwrdd B.D.C.W., ond nawr heb unrhyw gynrychiolaeth o gwbl gan unrhyw sector ar Fwrdd A.D.C. Yn ddiweddar fe wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol wahodd ceisiadau i lenwi'r chwe sedd wag ar fwrdd yr awdurdod. Byddai'r Cyngor Sir a'r gymuned fusnes yn yr ardal fawr hon o gefn gwlad Cymru yn teimlo'n llawer hapusach pe bai'r Cynulliad yn cymryd y cyfle i gael gwell cynrychiolaeth ddaearyddol ar Fwrdd A. D.C.

**ADFYWHAD ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL - SAFBWYNT POWYS**

12. Mae gan Gyngor Sir Powys a'r cynghorau o'i flaen, gofnod hir iawn o waith adfywhau cymunedau, wedi'i seilio ar agwedd economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol eang, yn cynnwys

- gweithio gyda phartneriaethau lleol
- adeiladu sgiliau o fewn cymunedau
- cymorth ar gyfer gwerthuso cymunedau a chynlluniau gweithredu; a
- targedu adnoddau cyfalaf a refeniw i helpu cyflawni prosiectau adfywhau cymunedau ar lawr.

13. Eleni, mae Cynllun Corfforaethol newydd Cyngor Sir Powys wedi ategu ymroddiad y Cyngor tuag at adfywhau economaidd a chymunedol, gan ei nodi fel un o'r pum blaenoriaeth craidd i'w gweithredu arnynt gan y Cyngor. Bydd y Cynllun yn dylanwadu ar glustnodi cyllidebau o Ebrill 2001 ymlaen.

14. O'n profiad ni, rhaid cael nifer o egwyddorion clir i fod wrth wraidd adfywhau economaidd a chymunedol:

- agwedd gyfannol trawsbynciol; gyda sawl adran a sawl corff yn gysylltiedig;
- yr angen i osgoi agweddau o'r top i lawr neu o'r gwaelod i fyny, o blaid cyfuniad o weledigaethau strategol a chyfeiriad gydag ymrwymiad o lawr gwlad;
- mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ymddiriedaeth rhwng pawb, yn seiliedig ar bartneriaethau cyfartal rhwng cymunedau a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol;

- rhaid i bob partner fod yn hyblyg ac yn fodlon cyfrannu eu harbenigrwydd a'u hadnoddau er mwyn cyflawni targedau cymunedol sy'n realistig ac ar y cyd;
- dylid torri lawr ar gynigion cystadleuol;
- mae'n hanfodol ein bod yn cael nawdd refeniw a chyfalaf tymor hir;
- mae adeiladau sgiliau o fewn cymunedau yn hanfodol; mae sgôp go iawn i'r sector gwirfoddol yma. Rhaid hefyd ddatblygu rôl y cynghorwyr sirol, y cynghorau tref a chymuned a'r siambrau masnach: rhaid bod yn sensitif i densiynau arweinyddiaeth o fewn cymunedau.

15. Tra bod y consenswс ar sut i hybu adfywhad cymunedol yn cynyddu, mae manteision ymarferol gwaith o'r fath mewn perygl go iawn o gael ei dorri lawr neu ei gymhlethu gan yr holl strategaethau a chynlluniau y disgwylir i awdurdodau lleol a'n partneriaid eu cynhyrchu a gan y nifer fawr o bartneriaethau, cynghreiriau, fforymau, pwyllgorau cyswllt, gweithgorau a grwpiau ffocws yr ydym yn gorfod eu sefydlu.

16. Yn ôl y Cynllun Corfforaethol, mae gan Gyngor Sir Powys rhyw ddeugain o strategaethau a chynlluniau sydd rhaid i awdurdodau lleol eu cynhyrchu, i gyd yn cael rhyw effaith ar adfywhad cymunedol. Hefyd, anogwyd awdurdodau lleol i sefydlu fforymau atal tlodi, grwpiau Agenda Lleol 21, cynghreiriau iechyd lleol, pwyllgorau cyswllt â'r sector gwirfoddol; partneriaethau cyllid yr U.E. ayyb - i gyd bron yn trafod yr un agenda.

17. Mae pob sector yn dioddef fwy fwy o ormod o bartneriaethau, strategaethau a chynlluniau, yn ogystal ag adnoddau prin yn deillio o weithredu ar lawr gwlad. Mae'n glir bod angen i ni ddatblygu a chydlynu strategaethau a chynlluniau gweithredu trwy bartneriaethau effeithiol, ond mae angen archwilio'r posibilrwydd o ad-drefnu ac egluro'r gwaith partneriaeth a chynllunio ar lefel leol a chenedlaethol.

18. Mae'r amser wedi dod i drin a thrafod y materion hyn, a hynny am ddau reswm arbennig:

- yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2000 mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi strategaeth gymunedol sy'n hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; a
- menter y Cynulliad Cenedlaethol "Cymunedau yn Gyntaf" sy'n tanlinelli'r angen am lywodraeth unedig a ffocws cymunedol.

19. Barn y Cyngor Sir yw y dylai'r Strategaeth Gymunedol i Bowys,(sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf newydd) weithio fel ffocws canolog pwysig ar gyfer holl weithgareddau adfywhad economaidd a chymunedol ac arall o fewn y Sir. Bydd rhaid paratoi'r Strategaeth Gymunedol mewn ffordd agored ac agored i bawb, gyda chymorth polisïau cenedlaethol a rhanbarthol a thrwy gynllunio cymunedol ar lefel llawr gwlad. Ar ôl cytuno arni, dylai'r Strategaeth Gymunedol ddylanwadu ar bob strategaeth a chynllun arall yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd y Strategaeth Gymunedol yn rhoi'r cyfle i ad-drefnu

sut y mae strategaethau a chynlluniau yn cael eu paratoi ar lefel awdurdod lleol ac i edrych yn fanwl ar ba strwythurau partneriaethau sydd orau i gymryd rhan wrth baratoi’r strategaeth ac i’w gweithredu yn y pen draw. Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig iawn wrth arwain y drafodaeth hon.

20. Y gobaith yw na fydd Menter y Cynulliad Cenedlaethol "Cymunedau yn Gyntaf" yn cymhlethu nac yn tanseilio’r cyfnod newydd hyn o gynllunio cymunedol a ddaeth o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol. Byddai’n achosi cryn bryder pe tai menter y Cynulliad yn ceisio diystyru’r broses statudol newydd hyn trwy gyfyngu adnoddau yn seiliedig ar y mynegai newydd o aml amddifadedd. Ond fe all y Fenter ‘Cymunedau yn Gyntaf’ ganiatáu i’r Cynulliad chwarae rôl werthfawr a galluogi, pe bai’n cynnig yr adnoddau ychwanegol i annog y broses o adeiladu sgiliau yn y gymuned a chynllunio cymunedol o fewn fframwaith y dyletswydd newydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol.